

FFURFLEN RHW20

HYSBYSIAD O HAWLIAD MEDDIANT AR SAIL ÔL-DDYLEDION RHENT DIFRIFOL: CONTRACT SAFONOL (HEBLAW CONTRACT SAFONOL RHAGARWEINIOL NEU GONTRACT SAFONOL YMDDYGIAD GWAHARDDDEDIG)

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract safonol (heblaw deiliaid contract safonol rhagarweiniol neu gontract safonol ymddygiad gwaharddedig) o dan adran 182(1) neu 188(1) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod y landlord yn bwriadu gwneud hawliad meddiant i'r llys.

Rhan A: Landlord	Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract
Enw: Cyfeiriad:	Enw(au):

Rhan C: Anedd
Cyfeiriad:

Rhan D: Hysbysiad o Hawliad Meddiant
<p>Mae'r landlord yn rhoi hysbysiad i chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, fod y landlord yn bwriadu gwneud cais i'r llys am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ildio meddiant o'r annedd uchod ar sail ôl-ddyledion rhent difrifol. Mae manylion eich ôl-ddyledion rhent difrifol fel a ganlyn: <i>Ticiwch fel y bo'n gymwys.</i></p> <p><input type="checkbox"/> Mae o leiaf wyth wythnos o rent heb ei dalu (pan fo'r rhent yn cael ei dalu bob wythnos/pythefnos/pedair wythnos)</p> <p><input type="checkbox"/> Mae o leiaf ddau fis o rent heb ei dalu (pan fo'r rhent yn cael ei dalu yn fisol)</p> <p><input type="checkbox"/> Mae o leiaf un chwarter o rent dros dri mis yn hwyr (pan fo'r rhent yn cael ei dalu'n chwarterol)</p> <p><input type="checkbox"/> Mae o leiaf 25% o'r rhent dros dri mis yn hwyr (pan fo'r rhent yn cael ei dalu'n flynyddol)</p>

Rhan E: Llofnod	
Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran: 	Dyddiad:

Defnyddio'r ffurflen hon

Ni ddylid defnyddio'r ffurflen hon ar gyfer contractau safonol rhagarweiniol neu gontractau safonol ymddygiad gwaharddedig. Dylid defnyddio **Ffurflen RHW21** ar gyfer y mathau hynny o gontractau meddiannaeth.

Cyfyngiadau ar achosion yn dilyn yr hysbysiad hwn

Ni chaiff y landlord wneud hawliad meddiant cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r landlord yn rhoi'r hysbysiad hwn i ddeiliad neu ddeiliaid y contract, neu ar ôl i'r cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod hwnnw ddod i ben.

Canllawiau i ddeiliaid contract

Mae'r hysbysiad hwn yn dweud wrthyfch fod eich landlord yn bwriadu dechrau achos i adennill meddiant o'r annedd a nodir yn Rhan C. Dylech ddarllen yr hysbysiad yn ofalus a gofyn am gyngor ynghylch eich amgylchiadau cyn gynted â phosibl.

Y dyddiad cynharaf y gall achosion adennill meddiant ddechrau yw 14 o ddiwrnodau o ddyddiad yr hysbysiad hwn.

Os oes gennych unrhyw amheuan neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch unrhyw agwedd ar yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch landlord yn y lle cyntaf. Gall llawer o broblemau gael eu datrys yn gyflym drwy eu codi'n syth. Os na allwch ddod i gytundeb â'ch landlord, efallai y byddwch am gysylltu ag asiantaeth gynghori (megis Cyngor ar Bopeth Cymru neu Shelter Cymru) neu gynghorwyr cyfreithiol annibynnol. Os ydych yn credu eich bod yn wynebu'r risg o fod yn ddigartref o ganlyniad i gael yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i gael cymorth.